LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Penodi tri Ymddiriedolwr

" So! Beth sydd yn gwneud i chi feddwl y gallwch chi helpu'r Llyfrgell ymestyn allan i'r cyhoedd?"

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn creu gwerth diwylliannol ac economaidd i bobl Cymru trwy arwain a chydweithio. Rydym yn symud rhwystrau at wybodaeth, datblygu sgiliau i greu gwybodaeth a chadw'r wybodaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Llyfrgell yn awyddus i benodi tri Ymddiriedolwr newydd a manteisio ar y cyfle hwn i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhywedd y Bwrdd, yn ogystal â cheisio gweld fod gennym Fwrdd mwy cynrychioliadol o'r amrywiol gymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Fel aelod o'r Bwrdd byddwch yn mynd ati'n egnïol a brwdfrydig i roi arweiniad strategol i'r Llyfrgell, ei helpu i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf, wynebu ei heriau'n greadigol, craffu ar ei pherfformiad a'i gwneud yn fwy perthnasol i gymunedau amrywiol eu hangen.

Byddai'n dda medru penodi unigolion sydd â phrofiad o weithio ym meysydd cynllunio strategol, digido, rheoli casgliadau, cyfryngau a darlledu, codi arian a chynaliadwyedd, rhwydweithio rhyngwladol, ond nid yw hynny'n angenrheidiol.

Nid yw Ymddiriedolwyr yn derbyn tâl, ond byddwn yn ad-dalu costau teithio a chostau rhesymol eraill. Gwneir y penodiad mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a bydd yn seiliedig ar deilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg, agored a thryloyw ac am gyfnod o bedair blynedd o 1 Mawrth 2020.

Nid oes amodau ieithyddol ynghlwm â'r penodiadau hyn. Bydd Ymddiriedolwyr yn gweithio trwy ba bynnag iaith a ddewisir ganddynt. Darperir cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y cyfle cyffrous yma, medrwch gysylltu â Carol Edwards, (Rheolwr Llywodraethiant) ar 01970 632923 neu ar carol.edwards@llyfrgell.cymru.
Mae croeso i chi hefyd ymweld â'r Llyfrgell am sgwrs gyda'r Prif Weithredwr a thaith o gwmpas y Llyfrgell.

Gellir cael pecyn gwybodaeth a ffurflen gais trwy gysylltu â Carol Edwards, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU neu ar yr e-bost uchod.

Y dyddiad olaf y derbynnir ceisiadau yw 22 Tachwedd 2019.

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 10 Rhagfyr 2019.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government